CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 2 RHAGFYR 2014

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
B Owen, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, A W Bohana,
M W Thomas, A Hopcyn, E Hughes, T Thomas, K Williams,
W L Davies

Siaradwr Gwadd: Llyr Beaumont Jones Uwch Reolwr Economi a Chymuned a Gwyn Roberts ,Galeri Pâr: Glannau Caernarfon

Croesawyd hwy gan Y Maer

Nodwyd bod nifer o ceisiadau adfywio wedi bod yn y gorffennol a heb llwyddo yn ei chyfanrwydd

Mae'r prosiect yma yn cynnwys barn y bobl ar gychwyn y broses

Fydd y deialog rhwng pobl lleol yn creu sail i'r Artistiaid a byddant yn ceisio dehongli'r gwybodaeth yn eu gwaith

Fydd barn yr ysgolion yn hanfodol hefyd

12 cais ar y rhestr fer a dim ond 4 fydd yn llwyddiannus

Syniad o "ciwbiau" yn un wahanol ac elfennau fel hyn oedd y Cyngor Celfyddydau yn hoffi am y cais

Disgwyl datganiad yn fuan i weld os ydi'r cais yn llwyddiannus. Adborth hyd yma yn galonogol. Gofynnir am gefnogaeth Cyngor Tref i ledaenu'r gwybodaeth a cyfrannu at y broses

1. **Ymddiheuriadau**

C Williams , H Edwards , G Thomas, E Lovgreen

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Noson Nadoligaidd Biwmares a diolch i'r Dirprwy am fynychu cyngerdd sbarc

3. **Datgan Buddiant Personol**

Cyng W T Owen - cynllunio
Cyng A Bohana – eitem brys

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Taliad i Cynghorydd A Bohana

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 18 Tachwedd 2014
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau cynllunio **-**
Penderfynwyd

1. C14/1005/14/LL **Cytuno**
Cais ôl-weithredol ar gyfer blaen siop newydd

29 Stryd Bangor, Caernarfon

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Cysoni cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. CTC

i) Cofnodion Cyfarfod Blynyddol
ii) Cofnodion cyfarfod cyffredinol
iii) E-bost Parthed Golff

Penderfynwyd

i) Derbyn er gwybodaeth a cytuno i'r taliad o £125 eleni
ii) Derbyn er gwybodaeth
iii) Cytuno

10. **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y cyd**

i) Canolbarth Cymru
ii) Gogledd Cymru

Penderfynwyd

Clerc i e-bostio'r pecyn allan i bawb ar gyfer sylwadau cyn 5ed Ionawr

11.**Taflen Clwb y Llewod**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

(Gadawodd Cyng A Bohana a Cyng T Thomas am 6.45)

12. **Adroddiad ar lafar o'r cyfarfod ar y cyd a Chynghorwyr Felinheli**

Nodwyd bod y ddau gyngor yn fodlon derbyn y swm gyda amodau canlynol :-

1. Os ydi maint y parc solar yn cynyddu bod y swm hefyd
2. Bod disgwyl ryw fath o daliad hyd at 20 mlynedd dim 10 (gan mai dyna ydi oes disgwyliedig parc o'r fath
   Hefyd mae cyfreithiwr Cyngor Felin wrthi yn astudio'r cytundeb a disgwyl clywed ganddo os ydyw yn hapus a'r geiriad
   Penderfynwyd
   Cefnogi'r cynigion

13. Cwestiynau

Dim

14. Taliad i Cyng A Bohana

Eglurodd y clerc wrth i Cynghorydd A Bohana neud gwaith gwirfoddol ar y cysgod fannau bysus cafodd ddifrod i'w gâr wrth i un o'r paneli gracio'r ffenestr blaen ac felly yn gorfod gwneud cais yswiriant . Holi os fyddai'r Cyngor yn fodlon talu eu swm "excess" £60 gan mai gwneud ffafr i'r Cyngor oedd o ar y pryd

Penderfynwyd

Talu os fedr y clerc gael sicrwydd bod hyn yn gyfreithiol

Gorffennodd y cyfarfod am 6.50

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....